O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 849 (Cy. 64)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 23, Llanddulas i Gyffordd 22, Hen Golwyn, Conwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015

*Gwnaed* *23 Mawrth 2015*

*Yn dod i rym* *30 Mawrth 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig mewn darnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar neu gerllaw'r ffordd.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, dehongli a chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 March 2015. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 23, Llanddulas i Gyffordd 22, Hen Golwyn, Conwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015.

**2.—**(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n ysgogi'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 19:00 o'r gloch ar 30 Mawrth 2015 ac sy'n dod i ben pan symudir ymaith yn derfynol yr arwyddion traffig dros dro.

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A55 rhwng Cyffordd 23, Llanddulas a Chyffordd 22, Hen Golwyn ym Mwrdeistref Sirol Conwy a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**Ataliad**

**4.** Mae darpariaethau Rheoliadau Ffordd Arbennig (yr A55) (Llanddulas i Fae Colwyn) 1984**(3)** drwy hyn wedi eu hatal dros dro, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen, yn ystod y cyfryw amseroedd pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**5.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y gwaharddiad y cyfeirir ato yn yr erthygl honno yn weithredol.

**Parhad y Gorchymyn hwn**

**6.** Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 23 Mawrth 2015

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

**(3)** O.S. 1984/1719

## YR ATODLEN

1.Y darn o brif gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ganolbwynt yr ynys hollti yng Nghyffordd 23, Llanddulas hyd at ganolbwynt Cyffordd 22, Hen Golwyn.

2. Hyd cyfan y slipffordd ymuno tua'r gorllewin yng Nghyffordd 23, Llanddulas.